INFO 08/07/02 **17 JULY 2008**

ADRODDIAD CADEIRYDD PWYLLGOR CYNGHORI AR FWYD CYMRU (WFAC)

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r adroddiad sydd ynghlwm yn cynnwys diweddariad ar waith Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru.

2. **Er gwybodaeth** yn unig y mae'r adroddiad. **Nid** oes gofyn i chi gymryd **unrhyw gamau**.

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru

Cyswllt:

Helen George, Ysgrifenyddiaeth Ffôn 029 2067 8907

E-bost helen.george@foodstandards.gsi.gov.uk

INFO 08/07/02 **17 JULY 2008**

ADRODDIAD CADEIRYDD PWYLLGOR CYNGHORI AR FWYD CYMRU (WFAC)

Cyfarfodydd y Pwyllgor Cynghori:

1. Cynhaliodd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru gyfarfod caeëdig yn Llandudno ar 2 Gorffennaf. Hwn oedd cyfarfod cyntaf y pedwar aelod newydd a benodwyd i'r Pwyllgor (Mr Stephen Bolchover, Mrs Susan Jones, Dr Hugh Jones, a Mr Derek Morgan). Yn ystod y cyfarfod, bu'r Pwyllgor yn trafod ei flaenraglen waith ar gyfer 2008-2009. Hefyd, cafodd y Pwyllgor gyflwyniad manwl ar rôl a chylch gwaith y Bwrdd Safonau Gwin.

2. Roedd gan y cyfarfod agored a gynhaliwyd y diwrnod canlynol thema sef "Diogelwch Bwyd". Bu'r Pwyllgor yn trafod papur yn cyflwyno cyfraniad yr ASB i weithgareddau Wythnos Diogelwch Bwyd. Bu'r Pwyllgor hefyd yn gwrando ar gyflwyniad a oedd yn canolbwyntio ar gyswllt ASB Cymru ag awdurdodau lleol yng Nghymru yn ystod Wythnos Diogelwch Bwyd. Bu'r Pwyllgor yn trafod eitemau a welwyd ar y teledu yn ddiweddar yn trafod bwyta bwyd sydd wedi mynd heibio ei ddyddiad 'defnyddio erbyn'. Awgrymodd y Pwyllgor efallai yr hoffai'r Asiantaeth ystyried datblygu gwybodaeth bellach, i ddefnyddwyr, yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng dyddiadau 'defnyddio erbyn' a 'gwerthu erbyn' ar fwydydd. Roedd rhan helaethaf y cyfarfod wedi'i neilltuo ar gyfer cyflwyniad ar ymchwil sydd wrthi'n cael ei chynnal gan yr Asiantaeth a allai wneud darpariaethau ar gyfer cynhyrchu cig defaid â'r croen ynghlwm yn ddiogel ac yn gyfreithiol. Gofynnodd y Pwyllgor am i gamau gael eu cymryd i sicrhau y dylai unrhyw ddeddfwriaeth sydd i'w gweithredu i ddarparu ar gyfer cynhyrchu cig defaid â'r croen ynghlwm yn ddiogel ddigwydd ochr yn ochr â'r UE.

Rhagolwg:

3. Noder nad yw'r eitemau a restrir wedi'u cadarnhau'n derfynol a'i bod yn bosibl felly y byddant yn newid.

2008	
10 Medi	Cyfarfod caeëdig ac agored yng Nghaerdydd. Nodi yn y dyddiadur am y tro. Agenda heb ei phennu eto. Mae'n bosibl y bydd y dyddiad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynnal elfen o'r hyfforddiant cynefino ar gyfer aelodau newydd WFAC. Gwahodd aelodau WFAC sy'n gadael i swper ffarwel.
4/5 Tachwedd	Cyfarfod caeëdig ac agored yng Ngorllewin Cymru. Cyfuniad o sesiwn fusnes a sesiwn â thema sef *Rheoli ac Atal Digwyddiadau*.

2009	
Ionawr 13/14	Cyfarfod caeëdig ac agored â thema yng Nghaerdydd. Thema *Iechyd Deietegol*.
Cyfarfod undydd yn ystod wythnos Sioe Amaethyddol Llanelwedd 20-23 Gorffennaf. Dyddiad yn ddibynnol ar argaeledd lleoliad.	Cyfarfod busnes caeëdig. Trafodaethau agored â thema ar faes Sioe Amaethyddol Llanelwedd ar faterion *Cynhyrchu Sylfaenol.*
Tachwedd 10/11	Cyfarfod caeëdig ac agored yng Ngogledd Cymru. Cyfuniad o sesiwn fusnes a sesiwn â thema sef *Materion Gorfodi Awdurdodau Lleol.*

Gweithgareddau Eraill:

4. Yn ystod mis Mehefin, cyfarfu y Fonesig Deirdre a mi â Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth y Cynulliad. Un o'n cyfarfodydd rheolaidd ydoedd lle cafwyd cyfle i roi diweddariad i'r Dirprwy Weinidog ar nifer o faterion strategol (gan gynnwys cynigion taliadau hylendid cig, y diweddaraf ar gynigion Rheoliadau Gwybodaeth Bwyd, lliwiau mewn bwyd, a chyfnerthu ag asid ffolig).

5. Fe'n diweddarwyd gan y Dirprwy Weinidog ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran y broses o ddatblygu strategaeth 'Ansawdd Bwyd' Llywodraeth y Cynulliad. Mae cyfarfod pellach wedi'i drefnu ar gyfer gwanwyn 2009.

6. Mae'r Pwyllgor wedi cyfrannu at ymateb yr ASB i wahoddiad gan y Cynulliad Cenedlaethol i gyflwyno sylwadau ar Fesur Cynulliad arfaethedig (sef gwneud cyfreithiau 'Cymreig') ar fwyd mewn ysgolion. Yn ogystal â chynnig sylwadau ysgrifenedig cychwynnol, mae'r Asiantaeth yng Nghymru wedi dangos parodrwydd i gyfrannu ymhellach wrth i'r mesur ddatblygu.

7. Yn ystod mis Gorffennaf, rwy'n bwriadu cyfarfod â Gweinidog dros Faterion Gwledig Llywodraeth y Cynulliad i drafod nifer o faterion gan gynnwys cynhyrchu cig defaid â'r croen ynghlwm yn ddiogel a thaliadau hylendid cig.